COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CABINET A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB / O BELL DRWY TIMAU MICROSOFT. AR DYDD MAWRTH, 19 MAI 2026 14:30

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| GC Haines | J Gebbie | HM Williams | E L P Caparros |
| M J Evans | M Jones | C Davies | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoliadol ac Etholiadol |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Joanne Norman | Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth – y Parth Cyhoeddus |
| Stephanie Thomas | Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant |
| Gaynor Thomas | Rheolwr - Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu |
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Cefnogi |
| Oscar Roberts | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

## 625. Ymddiheuriadau am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a Thrawsnewid a'r Prif Weithredwr. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Mai 2026 |

## 626. Datganiadau o fuddiant

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Mai 2026 |

## 627. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfodydd Cabinet dyddiedig 10/03/2026 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Mai 2026 |

## 628. Argymhelliad Craffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant ynghylch Partneriaeth Byw'n Iach - Model Asiantaeth

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant, oedd cyflwyno argymhelliad Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant i'r Cabinet o'r cyfarfod a gynhaliwyd ganddynt ar 23 Ionawr 2026, wrth ystyried adroddiad ar Bartneriaeth Byw'n Iach – Model Asiantaeth.<br><br>Roedd yr aelodau wedi codi pryderon ynghylch y risg a amlygwyd yn yr adroddiad a dderbyniwyd o her gaffael oedd wedi codi o addasiad i delerau'r contract pe câi'r Model Asiantaeth ei weithredu.<br><br>Gofynnodd y Cabinet gwestiynau ar y canlynol:<br><br>• Y sefyllfa gyfreithiol ynghylch yr argymhelliad. |

| | |
|---|---|
| | • Unrhyw feddyliau pellach ar yr argymhelliad neu geisiadau i'r Cabinet.<br>• Manylion Briffio cyfrinachol i'r Aelodau ar y pwnc.<br><br>Aeth y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol, Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant a Chyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i'r afael â'r cwestiynau hyn.<br><br>PENDERFYNWYD: (1) Bod y Cabinet wedi ystyried ac y bydd yn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant yn unol â hynny.<br><br>(2) Cytunodd y Cabinet i drefnu sesiwn friffio gyfrinachol i Aelodau ar bwnc yr adroddiad cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet ym mis Gorffennaf. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Mai 2026 |

**629. Polisi Goruchwylio Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant, oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer gweithredu Polisi a Chanllawiau Ymarfer Goruchwylio diwygiedig Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, oedd i'w gweld yn Atodiad A i'r adroddiad.<br><br>Gofynnodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol am eglurder p'un a oedd yr adroddiad wedi ei gynnig a'i eilio ynteu a oedd yr eitem wedi cael ei gohirio i bwyllgor arall. Eglurodd y Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant fod yr adroddiad wedi cael ei gymeradwyo.<br><br>PENDERFYNWYD: (1) bod y Cabinet wedi cymeradwyo gweithredu Polisi a Chanllawiau diwygiedig Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar Ymarfer Goruchwylio (Atodiad A i'r adroddiad). |

| | |
|---|---|
| | (2) Argymhellodd y Cabinet ymhellach y dylai Pwyllgor y Cabinet ar Gydraddoldeb a Chysylltiadau â Gweithwyr ystyried symud polisïau sy'n ymwneud â Thelerau ac Amodau gweithwyr yn eu blaen. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Mai 2026 |

**630. Adolygiad o Bolisi Meddyginiaeth y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant, oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer gweithredu Polisi Meddyginiaeth diwygiedig Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (SSWB) oedd i'w weld yn Atodiad A i'r adroddiad fel oedd yn ofynnol o dan Ddeddf Cofrestru ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA).<br><br>Gofynnodd y Cabinet gwestiynau ar y canlynol:<br><br>• Cyfrifoldeb a gwahaniaethau cyflog rhwng cynorthwywyr gofal iechyd a staff gofal cartref.<br>• Cyfrifoldebau CBSP a'r Bwrdd Iechyd am ddarparu gofal.<br>• Dyddiad yr adolygiad diwethaf o raddfeydd cyflog ar gyfer swyddi gofal iechyd o fewn CBSP.<br><br>Cafodd y cwestiynau hyn eu trafod gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a gytunodd i ddod o hyd i gymariaethau uniongyrchol rhwng cyfrifoldebau staff a'u cyflwyno i'r Cabinet. Nodwyd mater yr anghydraddoldebau rhwng cyflogau gweithwyr gofal iechyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a gweithwyr gofal iechyd ehangach i gael ei drafod yn y dyfodol.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> (1) bod y Cabinet wedi cymeradwyo Polisi diwygiedig Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar Feddyginiaeth (Atodiad A i'r adroddiad). |

| | |
|---|---|
| | (2) Argymhellodd y Cabinet ymhellach y dylai Pwyllgor y Cabinet ar Gydraddoldeb a Chysylltiadau â Gweithwyr ystyried symud polisïau sy'n ymwneud â Thelerau ac Amodau gweithwyr yn eu blaen. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Mai 2026 |

## 631. Adolygiad Polisi Ariannol Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant, oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i weithredu Polisi Ariannol diwygiedig Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (GGA) Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, oedd i’w weld yn Atodiad 1 i'r adroddiad.<br><br>Gofynnodd y Cabinet gwestiynau ar y canlynol:<br><br>• Goblygiadau ariannol y polisi newydd.<br><br>• Fydd staff yn derbyn hyfforddiant newydd er mwyn ymgymryd â'u cyfrifoldebau newydd?<br><br>Cafodd y cwestiwn hwn ei ateb gan y Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro a Chyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> bod y Cabinet wedi cymeradwyo gweithredu Polisi Ariannol y Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig oedd wedi ei adolygu (Atodiad 1 i'r adroddiad). |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Mai 2026 |

## 632. Diweddariad ar Gytundeb Rheoli Cyfleusterau Tenis

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Aelod y Cabinet dros y Cymunedau a'r Amgylchedd, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y cynnydd a wnaed o ran datblygu Cytundeb Gweithredwr mewn perthynas â'r cyfleusterau tennis newydd ar draws y fwrdeistref, a ddatblygwyd ar y cyd â Chymdeithas Tennis Lawnt (LTA), ac i sicrhau penderfyniad wedi ei ddiweddaru ynglŷn â manylion y cytundeb arfaethedig i benodi gweithredwr allanol i reoli a chynnal a chadw'r cyrtiau.<br><br>Gofynnodd y Cabinet gwestiwn ynghylch manylion y gwaith a wnaed mewn safleoedd penodol. Cafodd y cwestiwn hwn ei ateb gan Bennaeth Gwasanaeth y Parth Cyhoeddus.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> bod y Cabinet:<br><br>1. wedi nodi cynnwys yr adroddiad diweddaru hwn, yn benodol mewn perthynas â'r newidiadau a amlinellwyd i drefniadau'r gronfa suddo arfaethedig a chymeradwyo dyfarnu contract consesiwn yn ffurf Cytundeb Gweithredwr i Tennis Wales Cyfyngedig.<br><br>2. yn dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau i drafod telerau terfynol cytundeb gweithredwr mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a Thrawsnewid a'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol, i gymeradwyo mynd i'r Cytundeb Gweithredwr terfynol ac unrhyw gytundebau atodol ac i roi unrhyw ganiatâd angenrheidiol fyddai'n ofynnol ar ran y Cyngor. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Mai 2026 |

**633. Dyddiadau arfaethedig ar gyfer Cyfarfodydd y Cabinet a Phwyllgorau'r Cabinet**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol, oedd gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer rhaglen dyddiadau cyfarfodydd y Cabinet a Phwyllgorau'r Cabinet ar gyfer blwyddyn ddinesig Mai 2026 i Ebrill 2027. |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD: | Bod y Cabinet wedi cymeradwyo rhaglen y cyfarfodydd fel y cafodd ei hamlinellu ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Mai 2026 | |

**634. Gwahardd y Cyhoedd**

| | | |
|---|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: | Na ddylid cyhoeddi'r eitemau canlynol am eu bod yn cynnwys gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 ac/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y cafodd ei diwygio gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007.<br><br>Ar ôl cymhwyso prawf lles y cyhoedd, penderfynodd yr Is-bwyllgor, yn unol â'r Ddeddf, y dylid ystyried yr eitemau hyn yn breifat, gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Mai 2026 | |

**635. Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio**

| | | |
|---|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: | Bod cofnodion eithriedig cyfarfodydd Cabinet dyddiedig 10/03/2026 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Mai 2026 | |

**636. Trefniadau Gofal Plant Dechrau'n Deg (trefniadau dros dro gyda Darparwr a Gomisiynwyd)**

| | | |
|---|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: | roedd y penderfyniad hwn wedi'i eithrio |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Mai 2026 | |

## 637. Rhaglen Moderneiddio Ysgolion: Darpariaeth Uwchradd Cyfrwng Cymraeg

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: roedd y penderfyniad hwn wedi'i eithrio |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Mai 2026 |

## 638. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Mai 2026 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 15:32